Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cerbydau Nwyddau Trwm (Codi Tâl am Ddefnyddio Seilwaith Penodol Ar y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd) (Diwygio)(Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **2 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

## Rheoliadau Cerbydau Nwyddau Trwm (Codi Tâl am Ddefnyddio Seilwaith Penodol Ar y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd) (Diwygio)(Ymadael â'r UE) 2018

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

- *Rheoliadau Cerbydau Nwyddau Trwm (Codi Tâl am Ddefnyddio Seilwaith Penodol Ar y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd) (Diwygio)(Ymadael â'r UE) 2009*

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**

Diben yr OS hwn yw cywiro diffygion yn neddfwriaeth y DU, yn ddarostyngedig i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn ymwneud â chodi tâl ar Gerbydau Nwyddau Trwm i ddefnyddio ffyrdd.

Nid yw Rheoliadau 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i godi tâl ar Gerbydau Nwyddau Trwm, ond pan fydd tâl, mae gofynion o ran sut y cânt eu cynllunio, a therfynau o ran uchafswm y taliadau.
Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, ac sy'n nodi effaith y diwygiad hwn, i'w gweld yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-heavy-goods-vehicles-charging-for-the-use-of-certain-infrastructure-on-the-trans-european-road-network-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro, ac nid yw'r cywiriad yn wleidyddol sensitif. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Byddai cytuno i OS ledled y DU/Cymru a Lloegr yn sicrhau bod dull gydlynnol ble y bo'n bosibl o baratoi y llyfr statud i weithredu'n iawn wedi i'r DU ymadael â'r UE. Bydd y dull hwn o weithredu yn hyrwyddo eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth ledled y DU. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.